Appendix 2

Dewch i siarad RhCT
Let's talk RCT

EISTEDDFOD
Rhondda Cynon Taf
3-10 Awst 2024

CROESO
WELCOME

**Fe wnaeth <u>728</u> o bobl lenwi ein hymgynghoriad Dewch i Siarad am yr Eisteddfod. Diben yr ymgynghoriad yma oedd clywed barn gyffredinol trigolion RhCT am yr Eisteddfod Genedlaethol, cael gwybod a oes unrhyw rwystrau sy'n eu hatal rhag mynychu'r achlysur flwyddyn nesaf a'u barn am y Gymraeg. Bydd y themâu cyson sy'n dod i'r amlwg yn yr ymgynghoriad yma'n ein helpu ni i lywio ein strategaeth gyfathrebu ar gyfer y cyfnod yn arwain at fis Awst 2024.**

Our recent Let's Talk Eisteddfod consultation closed with <u>728</u> participants. The consultation set out to find RCT residents' general feelings towards the National Eisteddfod, if there are any barriers to why they might not attend next year and their thoughts around the Welsh language. The themes identified from the consultation will help us shape our Eisteddfod communication strategy in the lead up to August 2024.

RHONDDA CYNON TAF 2024


RHONDDA CYNON TAF


# Trosolwg

# Overview

## YDYCH CHI WEDI BOD I EISTEDDFOD GENEDLAETHOL O'R BLAEN?

HAVE YOU EVER BEEN TO A NATIONAL EISTEDDFOD BEFORE?









## OEDDECH CHI'N GWYBOD BOD YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YN DYCHWELYD I RONDDA CYNON TAF YM MIS AWST 2024?

WERE YOU AWARE THAT THE NATIONAL EISTEDDFOD WAS RETURNING TO RHONDDA CYNON TAF IN AUGUST 2024?

## YDYCH CHI'N BWRIADU YMWELD AG EISTEDDFOD GENEDLAETHOL RHONDDA CYNON TAF YN 2024?

ARE YOU PLANNING ON ATTENDING THE 2024 NATIONAL EISTEDDFOD IN RCT?








## YDYCH CHI O’R FARN Y BYDD CYNNAL YR EISTEDDFOD YN RHONDDA CYNON TAF YN RHOI HWB I’R GYMRAEG YN LLEOL?

DO YOU THINK THE NATIONAL EISTEDDFOD RETURNING TO RCT WILL BOOST THE USE OF THE WELSH LANGUAGE LOCALLY?

## OES GYDA CHI DDIDDORDEB MEWN GWIRFODDOLI YN EISTEDDFOD RHONDDA CYNON TAF YN 2024?

ARE YOU INTERESTED IN VOLUNTEERING AT THE RCT EISTEDDFOD IN 2024?






# Adborth Cymraeg

## YDYCH CHI WEDI BOD I EISTEDDFOD GENEDLAETHOL O'R BLAEN? - NAC YDW, PAM?

- Pellter teithio.
- Dydw i ddim yn siarad Cymraeg, roeddwn i'n meddwl bod yr achlysur ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn unig/rydw i'n ofni teimlo'n unig.
- Does dim diddordeb gyda fy ffrindiau/teulu mewn mynd i'r achlysur gyda fi.
- Mae gen i fwy o ddiddordeb yn nhreftadaeth Cymru yn lle ei diwylliant.
- Dydw i ddim yn gwybod digon amdani i fynd/ dydw i ddim yn gwybod sut i ddod yn rhan o'r Eisteddfod.
- Rydw i'n mynd ar wyliau ar yr un pryd â'r Eisteddfod!
- Rhy ddrud
- Dydw i ddim yn hoffi mwd!
- Dydw i byth wedi teimlo bod croeso i bobl sydd ddim yn siarad Cymraeg

## YDYCH CHI WEDI BOD I EISTEDDFOD GENEDLAETHOL O'R BLAEN? - YDW, BETH WNAETHOCH CHI EI FWYNHAU ORAU?

- Ymarfer defnyddio'r Gymraeg.
- Cyfle i ymdrwytho yn yr iaith Gymraeg a'r diwylliant.
- Y cystadlaethau a'r Maes yn gyffredinol.
- Stondinau/prynu anrhegion a chynnyrch Cymreig lleol.
- Mwynhau Maes B gyda fy ffrindiau.
- Gigs ledled y sir, nid dim ond yn y dref sy'n cynnal yr Eisteddfod.

## YDYCH CHI'N BWRIADU YMWELD AG EISTEDDFOD GENEDLAETHOL RHONDDA CYNON TAF YN 2024? - YDW, BETH YDYCH CHI'N EDRYCH YMLAEN ATO FWYAF?

- Bwyta ac yfed!
- Cynnal yr achlysur yn RhCT.
- Rhoi croeso mawr i'r ymwelwyr sy'n dod i'r cymoedd.
- Gwirfoddoli a rhoi fy sgiliau Cymraeg newydd ar waith.
- Gwylio fy mhlant/fy nheulu yn cystadlu
- Profiad newydd.
- Dysgu beth yw gwir ystyr yr Eisteddfod!
- Cyfle i ymdrwytho yn yr iaith Gymraeg a'n diwylliant.
- Yr awyrgylch.
- Nid yn unig dangos RhCT i Gymru, ond i'r byd!
- Cwrdd â hen ffrindiau a gwneud ffrindiau newydd.
- Gweld y genhedlaeth nesaf yn siarad Cymraeg.
- Dysgu rhagor am yr iaith Gymraeg a'n diwylliant.
- Ymweld â'r Eisteddfod am y tro cyntaf!
- POPETH!!

## BETH ALLWN NI EI WNEUD ER MWYN SICRHAU BOD TRIGOLION RHCT YN CAEL EU CYNNWYS YM MHARATOADAU'R EISTEDDFOD YN Y CYFNOD CYN MIS AWST 2024?

- Rhannu'r newyddion diweddaraf ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn sicrhau ein bod ni'n gwybod sut i ddod yn rhan o bethau a beth sydd ar y gweill.
- Gwersi Cymraeg am ddim i drigolion a busnesau.
- Achlysuron yn y gymuned er mwyn helpu pobl i ddeall beth yw gwir ystyr yr Eisteddfod (dwyieithog).
- Cydraddoldeb i bawb, sicrhau bod yr Eisteddfod yn gynhwysol.
- Trafodaeth agored am faterion trafnidiaeth, cynllun rheoli traffig, parcio ac ati.
- Cynnwys yr ysgolion a'u hannog nhw i ddod yn rhan o bethau yn ystod paratoadau'r Eisteddfod.
- Trafnidiaeth reolaidd sy'n fforddiadwy.
- Achlysuron sy'n rhoi cyfle i bobl gael blas o'r hyn sydd i ddod, gigs ac ati er mwyn normaleiddio'r iaith.
- Cynnwys artistiaid iaith Gymraeg mewn achlysuron corfforaethol.

- Peidiwch anghofio am y bobl hynny sy'n cael eu gwybodaeth nhw o'r llyfrgell, canolfannau cymuned a'r radio.
- Cynnwys pawb yn Rhondda Cynon Taf, nid dim ond trigolion Pontypridd.
- Gostwng y pris ar gyfer trigolion lleol, neu fynediad am ddim!
- Hysbysebu'r achlysuron yn y gymuned wrth baratoi ar gyfer yr Eisteddfod.
- Rhagor o sesiynau holi ac ateb ar gyfer materion cyfredol.
- Dathlu talent leol ac annog y bobl yma i berfformio/cystadlu.
- Ffrwd/Sianel benodol ar y cyfryngau cymdeithasol sy’n trafod yr Eisteddfod.
- Cyfarfodydd wyneb yn wyneb er mwyn trafod â'r cyhoedd.
- Peidiwch â chymryd yn ganiataol bod pobl yn gwybod beth yw Eisteddfod, rhaid esbonio'r Eisteddfod yn glir iddyn nhw.
- Peidiwch â thorri coed yn y parc.
- Sut mae modd dod yn rhan o'r Eisteddfod?
- Mynediad i'r parc? Pryd bydd y parc ar gau i'r cyhoedd?
- Dylai clybiau chwaraeon sy’n cael eu heffeithio gael gwybod ymlaen llaw.
- Mae’n rhaid i ni bwysleisio bod y Gymraeg i bawb (waeth beth fo’ch lefel).
- Beth sy'n digwydd yn ystod yr Eisteddfod? Beth yw'r Orsedd? Rhannwch wybodaeth fanwl er mwyn addysgu pobl.
- Mae rhywbeth at ddant pawb yn yr Eisteddfod!
- Cyhoeddi rhestr o derminoleg sy’n cael ei defnyddio o amgylch y Maes fel bod modd i bobl baratoi.

## YDYCH CHI O’R FARN Y BYDD Y FFAITH BOD YR EISTEDDFOD YN DYCHWELYD I RHCT YN RHOI HWB I’R GYMRAEG YN LLEOL?

- Annog pobl i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg?
- Rhaid normaleiddio’r defnydd o’r iaith Gymraeg yn ein bywydau bob dydd.
- Cefnogi cymunedau a busnesau lleol i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg, neu ddechrau ar eu siwrne gyda'r iaith.
- Cynnig cyfleoedd llawn hwyl i ddefnyddio’r Gymraeg... gigs ac ati.
- Mae angen darparu rhagor o gymorth ar gyfer dysgwyr a'r genhedlaeth nesaf ar ôl iddyn nhw adael yr ysgol.
- Mae angen bod yn fwy cynhwysol, gan annog pawb i ddefnyddio'r iaith. Sicrhau nad yw’r iaith yn cael ei hystyried yn elitaidd!
- Gwersi wyneb yn wyneb am ddim.
- Targedu gwasanaethau ieuenctid - clybiau ieuenctid ac ati.
- Normaleiddio dwyieithrwydd ym mhob dim y mae’r Cyngor yn ei wneud.
- Cefnogi achlysuron Cymraeg sydd eisoes yn cael eu cynnal megis Parti Ponty.
- Cerddoriaeth yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â rhwystrau o ran yr iaith.
- Cefnogi Menter Iaith.
- Sesiynau dysgu i'r teulu - cyfle i bawb yn y teulu ddechrau ar yr un lefel.
- Achlysuron llawn hwyl am ddim - cwis, noson gemau.
- Hyrwyddo gwersi am ddim yn y gymuned.
- Cynnal sesiynau blasu er mwyn tanio diddordeb.
- Targedu'r unigolion sydd wedi cwblhau'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn rhoi cyfle iddyn nhw fagu hyder.
- Sicrhau bod pobl yn deall nad oes angen defnyddio Cymraeg perffaith. Mae safonau'r Gymraeg wedi arwain at bobl yn ofni defnyddio'u sgiliau rhag ofn eu bod nhw'n derbyn dirwy!
- Hyrwyddo clybiau sgwrsio anffurfiol yn Rhondda Cynon Taf!
- Sicrhau bod rhagor o fathodynnau ar gyfer siaradwyr Cymraeg ar gael yn y canolfannau cymuned.
- Rhaid i'n hymdrechion parhau ar ôl yr Eisteddfod, mae'r achlysur yn para 8 diwrnod yn unig felly mae'r hyn sy'n digwydd ar ôl yr Eisteddfod yn bwysicach na'r achlysur ei hun.

# English Feedback

## HAVE YOU EVER BEEN TO A NATIONAL EISTEDDFOD BEFORE? - NO, WHY?

- Distance to travel.
- Don't speak Welsh, thought it was for Welsh speakers only/fear of being isolated.
- No-one to go with, friends/family not interested.
- Don't know enough about it to go/didn't know how to get involved.
- More interested in heritage than culture of Wales.
- Always on holiday at the same time!
- Too expensive.
- Don't like mud!
- Never felt welcomed as non-Welsh speaker.

## HAVE YOU EVER BEEN TO A NATIONAL EISTEDDFOD BEFORE? - YES, WHAT DID YOU ENJOY THE MOST?

- Practising Welsh.
- Immersing myself with the Welsh language/culture.
- Competitions and generally the Maes as a whole.
- Stalls/buying local Welsh gifts and produce.
- Enjoying Maes B with my friends.
- Gigs through-out the county, not just in the host town.

## ARE YOU PLANNING ON ATTENDING THE 2024 NATIONAL EISTEDDFOD IN RCT? - YES, WHAT ARE YOU MOST LOOKING FORWARD TO?

- Eating and drinking!
- Just having the event in RCT.
- Welcoming visitors to the valleys.
- Volunteering and putting my new Welsh skills to use.
- Watching my children/family competing.
- A new experience.
- Finding out what the Eisteddfod is all about!
- Being immersed in the Welsh language and culture.
- The atmosphere.
- Showcasing RCT to not only Wales but the world!
- Meeting up with old friends and making new ones.
- Seeing the next generation speaking Welsh.
- Learning more about Welsh culture and heritage.
- Attending for the first time!
- EVERYTHING!!

## WHAT CAN WE DO TO ENSURE THAT RCT RESIDENTS ARE INCLUDED IN EISTEDDFOD PREPARATIONS IN THE LEAD UP TO AUGUST 2024?

- Social media posts etc to keep us informed on how to get involved and what's coming.
- Free Welsh lessons for residents/businesses.
- Community events to help people understand what an Eisteddfod is (bilingual).
- Equality for all, ensure it's inclusive
- Open and transparent about traffic management, parking etc.
- Involve schools and encourage them to get involved in the event.
- Cheap and regular public transport.
- Events to give people a flavour of what's to come, gigs etc. to normalise the language.
- Include Welsh language artists in Council events such as Summer, Easter and Christmas.
- Don't forget about those who get information through libraries, community hubs and radio.
- Include all of RCT, not just Pontypridd.
- Discount for local residents to attend or free!

- Advertise events in the community in the lead up which benefit the Eisteddfod.
- More Q&A's around current issues
- Celebrate local talent and encourage them to perform/compete.
- Dedicated social media stream.
- Don't assume people understand what an Eisteddfod is, spell it out for them.
- Face to face meetings with the public to discuss.
- Don't cut down the trees in the park
- How do we get involved in the lead up and during?
- Access to the park? When will it close to the public?
- Sports clubs impacted to be informed well in advance.
- Welsh is for everyone, that's the message we need to push (no mater skill level).
- What happens at an Eisteddfod? What is the Gorsedd? Go into detail and educate.
- There's something for everyone at the Eisteddfod!
- Break down terminology around the Maes so people are prepared.

## DO YOU THINK THE NATIONAL EISTEDDFOD RETURNING TO RCT WILL BOOST THE USE OF THE WELSH LANGUAGE LOCALLY?

- Incentives to use your Welsh?
- Need to normalise it's use in everyday life.
- Support for local communities and businesses to use their Welsh or start their journey.
- Introduce fun ways to get involved with the language… gigs etc.
- Need more support for learners and next generation when they leave school.
- Need to be more inclusive, encouraging all to take it up. Not to be seen as elitist!
- Free face to face lessons.
- Target youth provision – youth clubs etc.
- Normalise bilingualism with everything the Council do.
- Support Welsh events already in place such as Parti Ponty.
- Music is the best way to break down language barriers.
- Family learning sessions – all the family start at the same level.
- Free fun events – quizzes, games nights.
- Promote free lessons in the community.
- Taster sessions to peak interest.
- Target those that went through Welsh medium schools to gain confidence once again.
- Break down barriers that you need to use perfect Welsh. Welsh standards etc have put the fear into people using their skills as they might get fined!
- Promote informal chat clubs in RCT.
- More Welsh badges for Welsh speakers and learners available at community hubs.
- Support Menter Iaith!
- Work must continue after the Eisteddfod, it'll only be here for 8 days so the legacy is more important the event in itself.

EISTEDDFOD
Rhondda Cynon Taf
3–10 Awst 2024

RHONDDA CYNON TAF